Cofnodion Cyfarfod Arbennig Cyngor Llawn Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd Nos Fercher 09.11.2022, 6.30pm trwy Zoom.

Presennol: Cynghorwyr; Alyn Ashworth, Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle, Philip Stevens, Gaynor Morgan Rees, Pauline Edwards, Ruth Griffiths, Maxime Boucknooghe; Catherine Jones; Sylvia Jennings, Sharon Tyers, Lara Pritchard, Jan Tomlinson, Jenny Barlow (Clerc y Dref

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod arbennig cyn cyllid.

98 Ymddiheuriadau am absenoldeb. Dim

99 Trafod a chytuno ar flaenoriaethau ariannol newydd ar gyfer cyllidebau 23/24:

Trafodwyd a chytunwyd ar y manylion isod fel blaenoriaethau ar gyfer blwyddyn ariannol newydd 2023/24 yn ogystal â diweddaru rhai o'r categorïau cyllideb presennol i gynnwys newidiadau yn ôl y gofyn. Mae cynllun 5 mlynedd hefyd wedi ei gychwyn.

99.1 Costau

a) Darparu cyfarfodydd hybrid - £3,000.
b) Cyllideb ychwanegol i gynorthwyo gyda throsglwyddo asedau Neuadd y Dref £3,500.
c) Deunydd hyrwyddo – (twristiaeth a thrigolion) £1,000 yn ychwanegol i'r £3,000 sydd eisoes yn y gyllideb ar gyfer 2022/23.
ch) Lleihawyd cymorth grant i £20,000 (yn ychwanegol at y £4,000 a ddyrannwyd i Ddinbych yn ei Blodau)
d) CAD – cymorth grant o £5,000 wedi'i ddyrannu yn ychwanegol at eitem (ch).
dd) Coed coroniad – £500 ychwanegol (£500 yn dal i fod wrth gefn o Jiwbil y Frenhines.
e) Coeden i'w rhoi i'r clafdy - £100 wedi ei glustnodi.
f) Hyfforddiant i Gynghorwyr a Staff £2,000.
ff) Diwrnod agored yn neuadd y dref £300.

Ymunodd y Cyng Jan Tomlinson â'r cyfarfod am 18.51yh

g) Dathliadau'r coroni - £1,000 wedi'i ddyrannu ar gyfer baneri a phlanwyr jiwbilî posibl ar y cyd â Dinbych yn ei Blodau. Ariannu te parti yn neuadd y dref hefyd.
ng) Cymhorthdal Parcio Rhad Ac Am Ddim ym Maes Parcio Stryd y Dyffryn – mae angen costio 30m am ddim ac 1 awr.
h) Arwyddion ychwanegu at boteli dŵr - £100.

99.2 Syniad ar gyfer gweithredu cyflym – prynu blancedi i'w dosbarthu er budd yr argyfwng costau byw presennol. Dywedodd clerc y dref na ellid trafod hyn gan nad oedd ar yr agenda.

99.3 Syniadau ar gyfer cynllun 5 mlynedd:
Y grŵp Cynllunio'r Dyfodol i ystyried y pwyntiau hyn yn weithredol.

a) Man gollwng bysiau a pharcio
b) Uwchraddio'r Ardd EP
c) Cynhwysydd storio yn y maes parcio
ch) Gazebos Stondin y Farchnad
d) Hysbysfyrddau
dd) Rheolwr Neuadd y Dref yn cael ei rannu â Buttermarket
e) Dyfodol Adeilad yr Amgueddfa
f) Annog Busnesau Newydd

Holodd cynghorwyr tref newydd ynghylch trosglwyddo asedau neuadd y dref (ynghylch costau rheolwr neuadd y dref). Cadarnhaodd y clerc fod yr achos busnes yn mynd i gael ei ddiweddaru ac ar ôl ei gwblhau bydd yr ymgynghorydd (heb ei benodi eto) yn gallu rhoi cyflwyniad o'r ffeithiau a'r ffigurau newydd.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.32 pm

Llofnodwyd:……

Dyddiad: ……